# Adolygiad cyflym o'r nodweddion a'r canlyniadau i blant sy'n rhan o achosion cyfraith breifat teuluoedd pan fo rhieni'n gwahanu

CRYNODEB GWEITHREDOL

## Beth yw Adolygiad Cyflym?

Mae ein hadolygiadau cyflym yn defnyddio amrywiad ar y dull adolygu systematig, gan dalfyrru neu hepgor rhai cydrannau i gynhyrchu'r dystiolaeth i hysbysu rhanddeiliaid yn brydlon wrth roi sylw i ragfarn.

## Ar gyfer pwy mae'r Adolygiad Cyflym hwn?

Mae'r adolygiad cyflym hwn wedi'i baratoi ar gyfer llunwyr polisïau sy'n gyfrifol am bolisïau sy'n ymwneud â phlant a theuluoedd. Mae hefyd ar gyfer gweithwyr proffesiynol ym maes cyfraith teuluoedd, a theuluoedd mewn achosion cyfraith breifat sy'n cynnwys plant.

## Cefndir / Nod yr Adolygiad Cyflym

Mae achosion cyfraith breifat sy'n cynnwys plant fel arfer yn cynnwys anghydfodau llys rhwng rhieni sydd wedi gwahanu ac yn anghytuno ynghylch trefniadau ar gyfer eu plant, ac yn gofyn i'r llys wneud gorchmynion sy'n penderfynu ble y dylai plentyn fyw a gyda phwy y dylai dreulio amser. Mae'r plant sy'n cael eu cynnwys mewn cyfraith breifat, ac a allai fod yn cynrychioli grŵp agored i niwed, yn aml yn cael llai o sylw mewn polisïau o gymharu â'r rhai mewn achosion cyfraith gyhoeddus. Nod yr adolygiad hwn oedd tynnu sylw at les a nodweddion pwysig eraill y plant sy'n rhan o achosion cyfraith teuluoedd ar hyn o bryd, neu wedi bod yn rhan o achosion o'r fath, o ganlyniad i rieni'n gwahanu. Roedd hefyd am geisio amlygu'r canlyniadau er mwyn nodi pa gymorth sydd ei angen ar y plant hyn sy'n aml yn cael eu hanwybyddu mewn polisïau.

## Canlyniadau'r Adolygiad Cyflym

*Pa mor ddiweddar yw'r sylfaen dystiolaeth*

- Cynhaliwyd y chwiliadau llenyddiaeth ym misoedd Mehefin–Awst 2024. Cafodd y llenyddiaeth a gafodd ei chynnwys ei chyhoeddi rhwng 2001 a 2022.

*Maint y sylfaen dystiolaeth*

- Nodwyd 22 o astudiaethau a gafodd sylw mewn 25 o ddogfennau (8 a gyhoeddwyd mewn cyfnodolion academaidd ac 17 mewn adroddiadau a gynhyrchwyd gan sefydliadau).
- Yn wreiddiol o Gymru a Lloegr (n = 13), Awstralia (n = 7), Canada (n = 1), Seland Newydd (n = 1).
- Roedd y rhan fwyaf o'r astudiaethau yn ceisio disgrifio nodweddion plant sydd wedi bod yn rhan o achosion cyfraith breifat teuluoedd, neu'n rhan ohonynt ar hyn o bryd. Dim ond un a edrychodd ar yr canlyniadau i blant o'r fath o'u cymharu â phlant yn y boblogaeth gyffredinol.

*Prif ganfyddiadau*

- <u>Iechyd meddwl a lles emosiynol.</u> Aeth bron pob un o'r astudiaethau i'r afael â'r pwnc hwn. Roedd adroddiadau ysgrifenedig am blant, rhieni a gweithwyr proffesiynol yn disgrifio plant oedd â gorbryder, iselder ysbryd, dicter, symptomau anhwylder straen ôl-drawmatig, ac anhwylderau bwyta, yn ogystal â rhai oedd yn hunan-niweidio ac yn ceisio lladd eu hunain. Yng Nghymru, roedd iselder a gorbryder yn fwy cyffredin ymysg plant a oedd â hanes o fod yn rhan o achosion cyfraith breifat o'u cymharu â phlant yn y boblogaeth gyffredinol. O'r dystiolaeth, nid oedd yn glir a oedd iechyd meddwl gwael yn gysylltiedig â rhieni'n gwahanu, yr

achos llys, gorchmynion llys, neu ffactorau eraill, ond roedd rhai o'r farn mai gorchmynion llys diangen a oedd yn achosi'r anawsterau.

- Ymgysylltu â gwasanaethau iechyd meddwl. Nodwyd wyth astudiaeth a ddangosodd fod lefel y cymorth yr oedd y plant yn manteisio arni yn amrywio. Roedd hyn yn amrywio o gymorth yn yr ysgol i Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed. Fodd bynnag, nid yw'n hysbys faint o blant mewn cyfraith breifat oedd angen cymorth iechyd meddwl o'r fath ac o'r rheini, faint oedd yn cael manteisio ato.
- Ymddygiad Nodwyd deg astudiaeth berthnasol. Awgrymodd rhai astudiaethau y dangosodd nifer sylweddol o blant anawsterau ymddygiadol, a chysylltwyd rhai ohonynt â rhwystredigaeth gyda'r sefyllfa ac anawsterau wrth fynegi eu teimladau.
- Datblygiad Ychydig o dystiolaeth oedd ar gael, ond cafwyd rhai hanesion o blant yn wynebu oedi o ran eu datblygiad ac yn gwaethygu i gam datblygiadol cynharach. Nid yw'n glir pa mor eang yw'r broblem hon.
- Cydberthnasau cymdeithasol Nodwyd 11 astudiaeth berthnasol. Dangosodd rhai, yn enwedig y rhai sy'n canolbwyntio ar achosion cyfraith breifat cymhleth, fod rhai plant wedi cael anawsterau o ran eu perthynas â rhieni a chyfoedion, eu bod yn methu ag uniaethu â'u cyfoedion, neu eu bod wedi rhoi'r gorau i gymdeithasu â nhw yn gyfan gwbl. Mewn astudiaethau eraill, yn enwedig y rhai nad ydynt wedi'u cyfyngu i achosion cymhleth, dywedodd plant a rhieni mai prin oedd y problemau a gafodd y plant wrth gymdeithasu.
- Dysgu ac addysg. Ychydig iawn o dystiolaeth oedd ar gael. Cafwyd rhai hanesion dibynadwy o Gymru a Lloegr a soniodd am effaith negyddol ar addysg plant. Mewn astudiaeth yn Awstralia, roedd bron i 40% o rieni yn meddwl bod gwaith ysgol eu plant a faint yr oeddent yn ei ddysgu yn waeth na'u cyfoedion.
- Iechyd corfforol Mewn cyflwyniadau gan Cafcass i Adolygiadau Achos Difrifol yn Lloegr, cyflwynwyd hanesion o blant a ddioddefodd gamdriniaeth ac esgeulustod difrifol, gan arwain at farwolaeth mewn rhai achosion. Dyma rai o'r achosion mwyaf difrifol, ac roeddent yn rhai prin. Amlygwyd achosion o blant mewn cyfraith breifat yn cael eu cam-drin yn gorfforol hefyd mewn rhai enghreifftiau dibynadwy.

### Goblygiadau'r gwaith ymchwil a bylchau yn y dystiolaeth

- Mae angen cynnal gwaith ymchwil am hyd a lled yn ogystal â natur y canlyniadau i blant mewn achosion cyfraith breifat o gymharu â'r rhai oedd â rhieni wnaeth wahanu heb ddefnyddio llysoedd. Y nod fyddai deall a yw achosion cyfraith breifat yn gallu gwaethygu profiadau plant a beth yw eu hanghenion cymorth penodol.
- Mae angen cynnal gwaith ymchwil i'r canlyniadau hirdymor i blant mewn cyfraith breifat, yn ogystal â chymharu canlyniadau tymor byr a thymor hir, i ddeall anghenion cymorth a sut gall y rhain newid.

### Goblygiadau o ran polisïau ac arferion

- Mae angen ymateb yn seiliedig ar iechyd y cyhoedd i anghenion plant mewn achosion cyfraith breifat. Gall hyn gynnwys ysgolion, meddygon teulu a gwasanaethau iechyd meddwl er mwyn nodi plant sy'n agored i niwed a rhoi cymorth amserol.
- Mae'n bwysig sicrhau bod cymorth ar gael hyd yn oed os yw'r achos wedi'i gwblhau, gan fod llawer o blant mewn achosion cyfraith breifat yn profi trallod acíwt.

### Ystyriaethau Economaidd

- Mae 33% o famau a 29% o dadau sy'n gwneud ceisiadau cyfraith breifat teuluoedd yng Nghymru o'r pumawd cwintel mwyaf difreintiedig. Mae'r ffaith nad oes cymorth cyfreithiol ar gael yn y rhan fwyaf o achosion cyfraith breifat yn her economaidd gynyddol.
- Mae prinder adnoddau yn effeithio ar y system cyfraith breifat gyfan. Fodd bynnag, efallai mai achosion sy'n ymwneud â cham-drin domestig sy'n wynebu'r risg fwyaf o ran asesiadau risg neu beidio â rhoi camau diogelu ar waith. Mae hyn oherwydd bod angen mwy o adnoddau i'w gweithredu o'u cymharu ag achosion eraill. Mae achosion sy'n ymwneud â cham-drin domestig

yn gyffredin mewn cyfraith breifat ac maent yn aml yn cael effaith negyddol ar blant, hyd yn oed os nad nhw yw'r prif dargedau.

- Gall plant sydd â rhieni sy'n gwahanu cyn eu bod yn 15 oed ennill 46% yn llai o gyfoeth net gydol eu hoes o ganlyniad i hynny, o'u cymharu â;r rhai nad ydynt yn wynebu'r profiad hwn.

Ymwadiad: Safbwyntiau'r awduron sy'n cael eu mynegi yn y cyhoeddiad hwn, nid Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru o reidrwydd. Mae Canolfan Dystiolaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ac awduron y gwaith hwn yn datgan nad oes ganddynt unrhyw wrthdaro buddiannau.